

Enw
Cyfeiriad
Cod Post

Rhif Ffôn: 01824 706000

Dyddiad:

Cyfeirnod Hawliad:

FFURFLEN TALIAD TAI DEWISOL (DIFFYG MEWN RHENT)

Os ydych chi'n derbyn Budd-Dal Tai / Credyd Cynhwysol ond dal yn ei chael hi'n anodd talu eich rhent, efallai y gallwch gael cymorth ychwanegol i dalu eich costau tai drwy wneud cais am **Daliad Tai Dewisol (TTD)**. Nid yw Taliadau Tai Dewisol yn daliadau budd-dal. Maent yn daliadau sy'n cael eu gwneud yn seiliedig ar sefyllfa'r unigolyn sy'n gwneud cais ac maent yn cael eu gwneud yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod.

Gallwch wneud cais am Daliad Tai Dewisol i'ch helpu i dalu eich rhent:

- Os ydych eisoes yn derbyn Budd-Dal Tai / Credyd Cynhwysol (yn cynnwys yr elfen costau tai).

Ac

- Os yw eich Budd-Dal Tai/ Credyd Cynhwysol (Yr Elfen Dai) yn is na'ch rhent llawn

Ac

- Os oes amgylchiadau arbennig yn bodoli sy'n golygu nad ydych yn gallu talu'r gwahaniaeth rhwng y rhent a'r hawl budd-dal eich hun.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch ynglŷn â'r mater hwn, cysylltwch â'r Adran Fudd-daliadau ar y rhif ffôn uchod.

Yn ddiffuant,

Rheolwr Darparu Gwasanaeth

Pa amgylchiadau fyddwn ni'n eu hystyried wrth benderfynu os gellir gwneud Taliad Tai Dewisol?

Y rheswm pam nad ydych yn gallu talu eich costau tai. Nid yw'r ffaith bod diffyg rhwng eich budd-dal a'ch costau tai yn ddigon i ganiatáu Taliad Tai Dewisol.

Mae'n rhaid i chi gael rhesymau eraill sy'n gwneud eich achos yn anghyffredin.

Eich sefyllfa ariannol, gan gynnwys os ydych yn gallu neilltuo arian i dalu eich costau tai eich hun.

Yr hyn rydych yn ei wneud i sicrhau y byddwch yn gallu talu eich costau tai eich hun yn y dyfodol. Os oes unrhyw ffordd arall o leihau eich costau tai, er enghraifft symud i eiddo rhatach neu gymorth gan ffynonellau eraill.

Sut i wneud cais:

- Rhaid llenwi'r ffurflen gais.
- Ateb **pob** cwestiwn.
- Darllen y datganiad yn ofalus.
- Llofnodi'r ffurflen.
- Anfon y ffurflen gyda'r holl dystiolaeth at:

Adran Budd-daliadau
Tŷ Russell,
Ffordd Churton,
Y Rhyl
LL18 3DP.

Fel arall, gellir dychwelyd y ffurflen wedi'i chwblhau i unrhyw un o'r Siopau Un Alwad ar draws y sir. Mae Siopau Un Alwad wedi'u lleoli yn Y Rhyl, Prestatyn, Rhuddlan, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun, Corwen a Llangollen. Ewch i wefan Cyngor Sir Ddinbych am fwy o wybodaeth: www.sirdinbych.gov.uk.

Pa mor hir fydd Taliad Tai Dewisol yn cael ei dalu?

Gellir talu Taliadau Tai Dewisol:

- Am gyfnod penodol, megis cyfnod pan fo gennych wariant ychwanegol annisgwyl.
- Am gyfnod parhaus, pan fydd y taliadau fel arfer yn gysylltiedig â'r cyfnod rydych wedi derbyn budd-dal. Er enghraifft, os yw'r taliad yn cael ei wneud oherwydd bod eich rhent yn gyfyngedig oherwydd y 'Treth Ystafelloedd Gwely'.

Ni fydd y cyfnod yn fwy na 52 wythnos.

Pan fo Taliad Tai Dewisol yn dod i ben mae modd i chi ail ymgeisio ond efallai y bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r ymdrech rydych wedi'i wneud ers eich cais cyntaf, i sicrhau eich bod yn gallu talu eich costau tai eich hun.

Faint o Daliad Tai Dewisol fyddwch yn ei gael?

- Os yw eich cais am Daliad Tai Dewisol yn cael ei gymeradwyo, bydd y swm y byddwch yn ei dderbyn yn dibynnu ar eich sefyllfa a'r rheswm dros ddyfarnu'r taliad.
- Ni all fod yn uwch na'r gwahaniaeth rhwng eich costau tai a'ch hawl budd-dal.
- Byddwn bob amser yn ystyried unrhyw swm rydym o'r farn y gallwch ei dalu eich hun.

Sut fyddwch yn gwybod os yw Taliad Tai Dewisol wedi'i ddyfarnu i chi?

- Bydd llythyr, yn nodi bod Taliad Tai Dewisol wedi'i ddyfarnu i chi, yn cael ei anfon atoch, fel arfer o fewn 14 diwrnod o dderbyn eich cais.
- Os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnom cyn penderfynu os dylid dyfarnu Taliad Tai Dewisol, byddwn yn ysgrifennu atoch i ofyn am yr wybodaeth honno. Os yw Taliad Tai Dewisol wedi'i ddyfarnu i chi byddwn fel arfer yn dweud wrthoch o fewn 14 diwrnod o dderbyn yr wybodaeth honno.
- Os nad ydym yn caniatáu Taliad Tai Dewisol bydd y llythyr yn egluro pam.

Beth os ydych yn anghytuno â'r penderfyniad ynglŷn â'r Taliad Tai Dewisol?

- Os ydych yn anghytuno gyda'n penderfyniad, gallwch ofyn i ni ail edrych ar y penderfyniad. I wneud hynny, mae'n rhaid i chi ysgrifennu atom i egluro pam eich bod yn anghytuno gyda'r penderfyniad. Mae'n rhaid i'ch llythyr gyrraedd y swyddfa hon o fewn un mis calendr i'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad. Byddwn yn anfon llythyr atoch i'ch hysbysu o ganlyniad yr adolygiad hwn.
- Nodwch: Gan nad yw Taliadau Tai Dewisol yn Fudd-daliadau, nid oes modd i chi apelio i'r Gwasanaeth Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad am Daliad Tai Dewisol.

Cais am Daliad Tai Dewisol

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif yr Hawliad:

Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn Taliad Tai Dewisol, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried bod yr unigolyn angen cymorth ariannol pellach gyda chostau tai. Felly mae'n bwysig eich bod chi'n darparu gymaint o wybodaeth â phosibl, er mwyn gallu ystyried eich cais yn llawn. Os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch ag aelod o'r Adran Fudd-Daliadau drwy ffonio'r rhif ffôn ar dudalen flaen y llythyr hwn.

Darparwch rif ffôn cyswllt:

Atebwch y cwestiynau canlynol:

Yn eich barn chi, faint o gymorth ariannol ydych chi ei angen tuag at eich rhent? £

Am ba mor hir fyddwch chi angen y cymorth hwn:

4 wythnos 8 wythnos 12 wythnos 26 wythnos

Os yw'r cyfnod yn fwy na 26 wythnos, nodwch y cyfnod a pham fyddai hyn o gymorth.

O ba bryd ydych chi angen cymorth?

Ydych chi angen cymorth o ganlyniad i:

Treth Ystafelloedd Gwely Cyfyngiadau o dan 35 Uchafswm Budd-daliadau Cyfyngiadau Credyd Cynhwysol

Arall, nodwch

Nodwch pwy sydd yn byw yn eich cartref

Enw	Dyddiad Geni	Perthynas	Incwm

A ydych chi wedi derbyn Cyngor Ariannol gan Cyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych?

DO / NADDO

Os nad ydych, ydych chi'n caniatáu i ni anfon eich manylion atynt?

YDW / NAC YDW

RHAN 1 HAWLIADAU NEWYDD

Cwblhewch yr adran hon os nad ydych wedi gwneud cais am Daliad Tai Dewisol o'r blaen. Os ydych yn gwneud cais i ymestyn taliad presennol ewch i Ran 2 y ffurflen hon.

Sut glywsoch chi am yr eiddo hwn?

Pam wnaethoch chi ddewis yr eiddo hwn? A oes gennych unrhyw reswm arbennig dros symud i'r cyfeiriad hwn?

A wnaethoch chi wirio'r cyfraddau Lwfans Tai Lleol ar gyfer yr ardal cyn cymryd yr eiddo?

Do Naddo Amherthnasol (Cymdeithas Dai / Eiddo'r Cyngor)

Oes oeddech yn ymwybodol y byddai diffyg yn eich rhent, eglurwch sut oeddech yn bwriadu ymdopi â'r gwahaniaeth?

Eglurwch pam i chi gymryd yr eiddo gan wybod y byddai diffyg yn eich rhent?

A ydych chi wedi gofyn i'r landlord leihau'r rhent?

Do Naddo Amherthnasol (Cymdeithas Dai / Eiddo'r Cyngor)

Os felly, beth ddywedodd eich landlord?

Os nad ydych wedi talu'r diffyg yn eich rhent, beth mae eich landlord wedi'i wneud am hyn?

Eglurwch pam fod yr eiddo hwn yn addas ar eich cyfer chi (ac eich teulu)
e.e. mae wedi'i addasu, a oes gennych chi angen llety ar y llawr gwaelod?

Ydych chi neu unrhyw aelod o'ch teulu yn dioddef ag unrhyw broblem iechyd neu anabledd?

Rhowch fanylion isod a chofiwch gynnwys unrhyw dystiolaeth gefnogol berthnasol.

RHAN 2 ADNEWYDDU HAWLIADAU

Cwblhewch yr adran hon os ydych eisoes wedi derbyn Taliad Tai Dewisol sydd yn dod i ben ac rydych yn ailymgeisio gan fod angen rhagor o gymorth arnoch chi.

Gan eich bod wedi derbyn Taliad Tai Dewisol yn barod, sydd erbyn hyn yn dod i ben, nodwch pam fod angen rhagor o gymorth arnoch chi.

Nodwch y camau gweithredu yr ydych chi wedi'u cymryd yn ystod y cyfnod i helpu eich sefyllfa.

A ydych chi wedi ceisio canfod llety arall?

Do Naddo

Os nad ydych, eglurwch pam

A oes unrhyw reswm arbennig yn eich atal chi rhag symud i rywle arall?

Nodwch pam, yn eich barn chi, fod yr eiddo hwn / yr ardal hon yn fwy addas ar eich cyfer nag unrhyw eiddo / ardal arall.

RHAN 3

I'w chwblhau gan bob hawliwr

A ydych chi ar restr aros y Cyngor / Cymdeithas Dai?

Ydw Nac Ydw Amherthnasol (Cymdeithas Dai / Eiddo'r Cyngor)

Os nad ydych, eglurwch pam.

Oes gennych chi ôl-ddyledion gyda'ch rhent presennol?

Oes Nac oes

Os oes, rhowch fanylion am swm eich ôl-ddyledion.

Os ydych yn derbyn Credyd Cynhwysol (yr Elfen Dai) yw hwn yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch landlord?

Ydi Nac ydi

A fyddai'n helpu eich sefyllfa bresennol pe byddem yn talu eich Budd-dal Tai yn uniongyrchol i'ch landlord?

Byddai Na fyddai

Mae'n rhaid i ni weld tystiolaeth tâl rhent cyfredol i gefnogi eich cais. Ticiwch y blwch isod i gadarnhau eich bod wedi darparu'r dystiolaeth hon:

Gweler yn amgaaedig y copi diweddaraf o fy Nghytundeb Tenantiaeth /Llythyr gan fy landlord

Amgylchiadau Arbennig

• Gellir ond talu Taliadau Tai Dewisol os oes gennych amgylchiadau arbennig, sy'n golygu nad ydych yn gallu talu eich costau tai heb gymorth ychwanegol.

• Dywedwch wrthym beth yw eich amgylchiadau arbennig ar gyfer y cyfnod rydych eisiau gwneud cais am Daliad Tai Dewisol.

• Cofiwch gynnwys unrhyw wybodaeth am salwch yn eich teulu sydd wedi cyfrannu at eich sefyllfa. Bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth feddygol i gefnogi eich achos.

• Dylech hefyd gyflwyno unrhyw ddogfen arall sy'n cefnogi eich datganiad.

A hoffech chi ychwanegu unrhyw beth arall i gefnogi eich cais?

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol i dalu eich costau tai

A ydych chi wedi cymryd neu'n bwriadu cymryd camau i sicrhau y byddwch yn gallu talu eich costau tai yn y dyfodol (cofiwch gynnwys unrhyw ymdrech yr ydych chi wedi'i wneud i leihau eich costau tai neu drefnu eich arian).

Os felly, rhowch fanylion isod:

Camau yr ydych chi wedi'u cymryd:

--

Camau yr ydych chi yn bwriadu eu cymryd:

--

Eich Dyledion

A oes gennych chi ddyledion/ hurbrynu neu rwymedigaethau ariannol eraill?
e.e. Sky, Ffôn Symudol, Brighthouse, Wonga, ac ati.

Oes Nac oes

Os oes, cwblhewch y tabl isod

Cwmni:	Dyddiad Cychwyn y Contract:	Dyddiad Gorffen y Contract:	Cyfanswm Cyfan:	Swm bob Rhandaliad:	A yw'r taliadau'n gyfredol?
				Wythnos/ Mis	
				Wythnos/ Mis	
				Wythnos/ Mis	
				Wythnos/ Mis	
				Wythnos/ Mis	
				Wythnos/ Mis	

A yw unrhyw un o'r uchod wedi cael ei ail-drafod? Ydi Nac ydi

A ydych chi wedi cysylltu ag unrhyw asiantaeth megis Cyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych neu'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol i'ch cynorthwyo â rheoli eich dyledion? Rhowch fanylion am unrhyw gam rydych chi wedi'i gymryd.

Eich cynilion

Rhowch fanylion eich holl gyfrifon banc gan ddarparu cyfriflenni 3 mis am bob cyfrif (hyd yn oed os yw eich cyfrif yn ddyledus).

Enw'r Banc/Cymdeithas Adeiladu	Rhif y Cyfrif	Balans
		£
		£
		£
		£
		£

A hoffech chi ychwanegu unrhyw beth arall i gefnogi eich cais?

Incwm a Gwariant			
	BOB WYTHNOS	BOB 4 WYTHNOS	BOB MIS
Cyflog clir (gan gynnwys eich partner)			
Budd-daliadau'r Wladwriaeth (manylwch)			
Budd-daliadau Plant			
Incwm Arall (manylwch)			
CYFANSWM INCWM			
	BOB WYTHNOS	BOB 4 WYTHNOS	BOB MIS
EICH GWARIANT			
Rhent			
Treth y Cyngor			
Cyfraddau Dŵr			
Trydan			
Nwy			
Tanwydd Arall (manylwch)			
Yswiriant Adeilad/ Cynnwys / Bywyd			
Cadw Tŷ (bwyd ac ati.)			
Tanysgrifiad Teledu Lloeren (Sky, Virgin TV, ac ati.)			
Trwydded Teledu			
Contract Ffôn Symudol / Ffioedd			
Ffioedd Llinell Dir / Band Eang			
Dillad			
Prydau Ysgol			
Treuliau Car (petrol ac ati.)			
Treth Car			
Yswiriant Car			
Catalog			
Dyledion (cofiwch gynnwys y cyfnod a'r rheswm am y ddyled)			
Cardiau Credyd / Siop/ Hurbrynu			
Taliadau Cynnal a Chadw			
Dirwyon Llys (cofiwch gynnwys y cyfnod)			
Arall (manylwch)			
CYFANSWM EICH GWARIANT			

**Cofiwch ddarparu tystiolaeth o'ch holl wariant (derbynebaw/biliau/ac ati.)
Os yw'r awdurdod yn ystyried eich gwariant yn eithafol, gall ei gyfyngu
neu ofyn i chi ddarparu tystiolaeth bellach o'ch gwariant a'r rhesymau
dros hynny.
Os nad ydych yn darparu tystiolaeth gefnogol gallai hyn achosi oedi wrth
wneud penderfyniad ar eich cais.**

Mae'n rhaid i chi nodi sut yr hoffech i ni dalu eich Taliad Tai Dewisol

Dewiswch un o'r isod:

Yn syth i fy nghyfrif banc

Yn uniongyrchol i gyfrif banc fy landlord

Enw Llawn a Chyfeiriad y Banc neu Gymdeithas Adeiladu

Cod Post

Cod Didoli

Rhif Rhestr Cymdeithas Adeiladu

Rhif y Cyfrif

neu Rif Undeb Credyd

Enw deiliad/ deiliaid y cyfrif fel maent yn ymddangos ar y llyfr siec, paslyfr neu gyfriflen.

Datganiad

Darllenwch y datganiad hwn yn ofalus.

Rwyf i / rydym ni yn datgan bod yr wybodaeth yr wyf/ yr ydym wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy/ ein gwybodaeth.

Rwyf i / rydym ni yn caniatáu i'r Cyngor wneud yr ymholiadau hanfodol i wirio'r wybodaeth ar y ffurflen hon.

Rwyf i / rydym ni wedi amgáu'r holl dystiolaeth o incwm a gwariant a oedd yn ofynnol. (Rwyf i/ rydym ni'n deall nad oes modd gwneud penderfyniad heb yr wybodaeth hon).

Llofnod Hawliwr

Dyddiad:

Llofnod Partner

Dyddiad: